CARE

Centre for Adult Social Care Research
Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Adroddiad blynyddol 2024 - 2025



CARE

Centre for Adult Social Care Research
Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion

careresearchwales.org/cy/croeso-i-care

CARE@caerdydd.ac.uk

linkedin.com/company/care-centre-for-adult-social-care-research

@CAREResearch_W

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Trosolwg y Cyfarwyddwr | 4 |
| Pwy ’di Pwy yn CARE | 6 |
| Diweddariad y Grŵp Cynghori Strategol | 8 |
| Crynodeb o'r flwyddyn | 9 |
| Lansio Canolfan CARE | 10 |
| Ymchwil | 12 |
| Diweddariad Cynnwys y Cyhoedd | 24 |
| Casgliad | 26 |




# Trosolwg y Cyfarwyddwr

Mae hon wedi bod yn flwyddyn brysur i CARE, gyda llawer o uchafbwyntiau. Yn 2023-24, roedd ein ffocws ar osod y sylfeini ar gyfer canolfan lwyddiannus. Eleni, rydyn ni wedi adeiladu ar y sylfeini hynny, gan gyflawni llwyddiannau ar draws ein gweithgareddau craidd.

Ein cenhadaeth yn CARE yw gwneud cyfraniad sylweddol at y sylfaen wybodaeth ym maes gofal cymdeithasol i oedolion a chynhyrchu tystiolaeth newydd sy'n llywio sut mae gofal cymdeithasol i oedolion yn cael ei ddarparu drwy ymchwil amlddisgyblaethol a chydweithredu.

O ran cynhyrchu tystiolaeth newydd, rydyn ni wedi sicrhau cyllid gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal ar gyfer sawl astudiaeth newydd. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth gofal cartref cynhwysol i bobl hŷn LHDTC+ (sef yr 'astudiaeth LEAP') a dadansoddiad o setiau data cysylltiol mawr i wella dealltwriaeth o dueddiadau allweddol ac anghydraddoldebau mewn mynediad at ofal cymdeithasol yng Nghymru (sef 'Labordy CARE'). Mae cydweithredu wrth wraidd y mentrau hyn, gan gynnwys prifysgolion ledled y DU, sefydliadau gofal cymdeithasol blaenllaw, darparwyr gofal cymdeithasol, a grwpiau o bobl sydd â phrofiad bywyd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae CARE wedi cefnogi llawer o geisiadau ariannu amlddisgyblaethol dan arweiniad cydweithwyr yng Nghaerdydd, gan gynnwys cais llwyddiannus gan yr Ysgol Meddygaeth ar ddiogelwch cleientiaid mewn darpariaeth gofal cartref yng Nghymru, wedi'i ariannu gan Raglen Ymchwil Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal.

Rhan o gylch gwaith craidd CARE yw cefnogi cydweithwyr ar draws y Brifysgol, sy'n parhau i ddatblygu ymchwil ar bynciau sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol i oedolion. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom hwyluso pedwar gweithdy Cymuned CARE, gan gynnig lle cefnogol i gydweithwyr gyflwyno syniadau a dyluniadau ymchwil a chael adborth.

Mae tîm craidd CARE wedi cefnogi amrywiaeth o geisiadau newydd a gyflwynwyd gan aelodau Cymuned CARE, gan gynnwys pynciau fel gwella cymorth gofal cymdeithasol i bobl niwrowahanol, a defnyddio technolegau cynorthwyol i alluogi pobl â dementia ac unigolion ag anableddau dysgu i fyw'n fwy annibynnol. Ar draws cymuned CARE, mae 34 o allbynnau wedi'u cyhoeddi sy'n mynd i'r afael ag agweddau pwysig ar ddarpariaeth a chymorth gofal cymdeithasol, yn ogystal ag anghenion poblogaethau sy'n cael mynediad at ofal cymdeithasol.

Rydyn ni'n parhau i gefnogi datblygiad gyrfaoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol ac yn agor drysau newydd i ymchwil gofal cymdeithasol i fyfyrwyr PhD hefyd. Ym mis Hydref, croesawon ni ddau fyfyriwr PhD i CARE. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydyn ni'n recriwtio ar gyfer tair ysgoloriaeth ymchwil a ariennir gan Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Ysgol Busnes Caerdydd. Bydd ffocws canolog ar gryfhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn gofal cymdeithasol ar draws yr ysgoloriaethau newydd hyn, gan gynnwys mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yn y sector gofal cymdeithasol a chreu amgylcheddau cartref gofal mwy cynhwysol ar gyfer grwpiau amrywiol o bobl hŷn. Yn ogystal, byddwn ni'n croesawu myfyriwr PhD newydd a gefnogir gan Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru gan ganolbwyntio ar ymyriadau therapiwtig sy'n seiliedig ar y celfyddydau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia.

Dros haf 2024, gwnaethom groesawu dau intern israddedig a gefnogodd ein gweithgareddau ymchwil. Rydyn ni'n falch o gynnig y cyfle hwn eto eleni ac yn ddiweddar rydyn ni wedi hysbysebu tair interniaeth sy'n gysylltiedig â CARE, wedi'u hariannu gan Brifysgol Caerdydd.

Mae aelodau tîm CARE hefyd wedi cael eu cefnogi i gyflwyno cynigion ymchwil i'r ffrydiau ariannu gyrfa gynnar a ddarperir gan Raglen Ymchwil Gofal Cymdeithasol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Mae lledaenu gwybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn hanfodol i'n Canolfan, ac mae eleni wedi bod yn llawn digwyddiadau, ar-lein a wyneb yn wyneb. Ym mis Mai, cynhaliwyd digwyddiad wyneb yn wyneb yn Spark ar les gofalwyr, gan dynnu sylw at negeseuon ymchwil allweddol am wella cymorth i ofalwyr di-dâl a gwella lles cymdeithasol. Roedden ni wrth ein bodd o groesawu ysgolhaig gwadd o Ganolfan Dementia Wicking ym Mhrifysgol Tasmania, Awstralia. Ar-lein, gwnaethom gynnal cyfres o gynadleddau ar 'Gymorth Dementia mewn Byd Amrywiol' ar y cyd â'n partneriaid ExChange, gan ganolbwyntio ar leisiau nas clywir yn aml mewn gofal dementia. Y digwyddiad mwyaf yn ein calendr oedd lansiad swyddogol CARE a gynhaliwyd yn Spark ym mis Hydref, gyda dros 80 o bobl yn ymuno â ni.

Gwahoddwyd y Dirprwy Gyfarwyddwr, Jeremy Dixon, a minnau i gyflwyno gweithgarwch ymchwil diweddar yn y Gynhadledd Gofal Cymdeithasol Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Hydref. Cefais y fraint o siarad am CARE ar banel ar rôl ymchwil wrth wella gofal cymdeithasol yng Nghynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2024 a chefais fy ngwahodd i wneud prif gyflwyniad yng Nghynhadledd Ymchwil Gofal Cymdeithasol Dwyrain Canolbarth Lloegr ym mis Mawrth 2025. Cyflwynodd tri aelod o'r tîm ganfyddiadau ymchwil yn y Gynhadledd Ewropeaidd ar Ymchwil Gwaith Cymdeithasol ym Munich, yr Almaen. Gwahoddwyd Cymrawd Ymchwil CARE, Sofia Vougioukalou, i siarad ar banel am hwyluso cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghynhadledd Flynyddol Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal ym mis Ebrill.

Un o'r prif gyflawniadau eleni oedd sefydlu grŵp cynghori ar ymarfer CARE, sy'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad ymarferol helaeth ar draws rolau a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae aelodau'r grŵp eisoes wedi dechrau gweithio gyda ni ar ddatblygu cynigion a cheisiadau am gyllid, gan ymuno â thimau ymchwil fel cyd-ymgeiswyr cyhoeddus mewn rhai achosion.

Mae ein grŵp cynnwys y cyhoedd, sef y Grŵp Profiad Bywyd, yn parhau i fod yn grŵp deinamig sy'n llywio gweithgareddau craidd CARE. Roedd yn anrhydedd i ni gael aelodau'n cyflwyno eu syniadau a'u profiadau ar ymwneud ag ymchwil yn lansiad CARE. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, fe welwch ragor o wybodaeth am sut mae aelodau'r Grŵp Profiad Bywyd wedi bod yn gweithio gydag aelodau tîm CARE wrth lunio ein hymchwil.

Hefyd yn yr adroddiad hwn, mae'r Athro Andy Pithouse yn rhoi diweddariad ar rôl allweddol y Grŵp Cynghori Strategol wrth lywio cyfeiriadau ymchwil CARE.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen yr adroddiad hwn am CARE. Fel bob amser, mae croeso i unrhyw un a hoffai weithio gyda ni gysylltu â ni.



**Yr Athro Paul Willis**
Athro mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Cyfarwyddwr CARE

# Pwy ’di Pwy yn CARE

## Tîm Craidd CARE



**Paul Willis**
Athro a Chyfarwyddwr CARE



**Jeremy Dixon**
Darllenydd a Dirprwy Gyfarwyddwr CARE



**Sofia Vougioukalou**
Cymrawd Ymchwil



**Melissa Meindl**
Cydymaith Ymchwil



**Sophie Wood**
Cymrawd Ymchwil



**Richard Gater**
Cynorthwy-ydd Ymchwil



**Simon Read**
Cymrawd Ymchwil a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru



**Alexandra Williams**
Rheolwr Canolfan CARE



**Alice Butler**
Swyddog Cynnwys y Cyhoedd a Gweithwyr Proffesiynol



**Amy Chapple**
Gweinyddwr Canolfan Ymchwil CARE



**Clara Lewis**
Swyddog Cyfathrebu CARE

## Tîm Gweithredol

**Paul Willis**
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol

**Jeremy Dixon**
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol

**Sarah Jenkins**
**Ysgol Busnes Caerdydd**

**Mike Robling**
Yr Ysgol Meddygaeth

**Jonathan Scourfield**
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol

**Alexandra Williams**
Rheolwr Canolfan CARE

## Grŵp Cynghori Strategol

**Yr Athro Andy Pithouse (Cadeirydd)**
Prifysgol Caerdydd

**Jason Bennett**
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cymru Gyfan, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwella, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

**Kate Cubbage**
Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

**Rhian Davies**
Anabledd Cymru

**Sarah Jenkins**
Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Jill Manthorpe**
Cynrychiolydd Academaidd, Coleg y Brenin

**Jonathan Scourfield**
Prifysgol Caerdydd

**Taryn Stephens**
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yn Llywodraeth Cymru

**Alexandra Williams**
Rheolwr Canolfan CARE

**Paul Willis**
Cyfarwyddwr CARE

**Mary Wimbury**
Llywodraeth Cymru

**Cynrychiolydd y Grŵp Profiad Bywyd**
Prifysgol Caerdydd

## Cymuned CARE

**Yr Athro Davina Allen**
Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd

**Dr Roser Beneito-Montagut**
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol

**Dr Stephen Beyer**
Yr Ysgol Meddygaeth

**Dr Dan Burrows**
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol

**Dr Dorottya Cserzo**
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol

**Dr Anna Galazka**
**Ysgol Busnes Caerdydd**

**Yr Athro Ben Hannigan**
Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd

**Dr Josie Henley**
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol

**Yr Athro Sally Holland**
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol

**Dr Asma Khan**
Yr Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd

**Yr Athro Martin Kitchener**
Ysgol Busnes Caerdydd

**Dr Julie Latchem-Hastings**
Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd

**Yr Athro James Lewis**
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol

**Fiona Lugg-Widger**
Yr Ysgol Meddygaeth

**Yr Athro Peter Mackie**
Yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio

**Dr Rachel McNamara**
Yr Ysgol Meddygaeth

**Andrea Meek**
Yr Ysgol Meddygaeth

**Yvonne Moriarty**
**Yr Ysgol Meddygaeth**

**Dr Rebecca Oatley**
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol

**Alexis Pala**
Ysgol Busnes Caerdydd

**Dr Georgie Powell**
Yr Ysgol Seicoleg

**Dr Catherine Purcell**
Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd

**Yr Athro Alyson Rees**
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol

**Dr Victoria Shepherd**
Yr Ysgol Meddygaeth

**Dr Alison Tarrant**
Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Caerdydd

# Diweddariad y Grŵp Cynghori Strategol

Mae gan Grŵp Cynghori Strategol CARE gylch gwaith clir o ran cefnogi uchelgeisiau CARE drwy gynnig cyngor a syniadau sy'n helpu i hwyluso amgylchedd ymchwil bywiog ac ymatebol yn y Ganolfan. Mae'r grŵp yn helpu i hyrwyddo trafodaethau, dulliau datblygiadol, blaenoriaethau, gweithgareddau a chyllidwyr a chyfeiriadau newydd posibl. Mae'n cynnig her adeiladol a chreadigol, gan hefyd gynghori ar risg a materion posibl sy'n deillio o weithgareddau a phrosesau ymchwil. Drwy wneud hynny, bydd y Grŵp Cynghori Strategol yn helpu'r Ganolfan i gyfeirio ei strategaeth tymor canolig a hirdymor mewn ffyrdd sy'n ymateb yn hyblyg i ffynonellau a chyfleoedd ariannu newydd.

Mae'r grŵp, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, bellach wedi dod ynghyd ddwywaith ers sefydlu'r Ganolfan yn 2024. Mae ei aelodau'n cynnig arbenigedd gofal cymdeithasol ac iechyd ym meysydd polisi, academia, llywodraeth, rheolaeth a sector preifat, statudol a gwirfoddol, a hefyd unigolion a all sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hystyried yn y busnes dan sylw.

Mae'r grŵp hefyd yn elwa o gynrychiolaeth o ddau grŵp cynghori CARE arall – y Grŵp Profiad Bywyd, sy'n darparu arbenigedd defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gan sbectrwm eang o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a'r Fforwm Cynghori ar Ymarfer, sy'n casglu gwybodaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid proffesiynol a sefydliadol.

Mae'r cyfuniad cyfoethog hwn o brofiad, gwybodaeth a dylanwad eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar weithgarwch CARE a bydd yn parhau i wneud hynny wrth i CARE fynd o nerth i nerth.



**Yr Athro Andy Pithouse**
Cadeirydd



# Crynodeb o'r flwyddyn

## Metrigau Craidd
Cyfnod adrodd: **2024-2025**

CARE
Centre for Adult Social Care Research
Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion

### Dyfarniad seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i'r grŵp

Cyllid uniongyrchol a ddyfarnwyd
**£650k**

Swyddi a grëwyd trwy gyllid uniongyrchol
CV
**10**

### Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

| Grantiau a enillwyd | Dan arweiniad y grŵp | Grŵp yn cydweithio |
|---|---|---|
| Rhif | 5 | 5 |
| Gwerth | £1.8m | £2.3m |
| Cyllido Cymru | £1.7m | £1.2m |
| Cyllid i'r grŵp | £1.2m | £0.1 |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd i Gymru | 7.9 | 3 |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer y grŵp | 2.8 | 1.1 |

**34**
Nifer y ceisiadau

**3**
Nifer y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd

**25**
Cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Digwyddiad Lansio Canolfan CARE

**Cynhaliodd y Ganolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion ddigwyddiad lansio swyddogol llwyddiannus yn adeilad Spark Prifysgol Caerdydd ar 17 Hydref, gyda dros 80 o bobl yn bresennol. Gwnaeth y digwyddiad amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer CARE, gan bwysleisio mai drwy gydweithio, cynnwys lleisiau amrywiol a gwneud ymchwil drwyadl y gallwn wneud cyfraniad gwerthfawr at sicrhau gofal cymdeithasol gwell i bawb yng Nghymru a thu hwnt.**



## Pwysigrwydd ymchwil

Gwnaeth Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, osod y naws drwy bwysleisio, "Ni fu'r angen am dystiolaeth gadarn erioed yn bwysicach. Erbyn 2030, bydd cynnydd o 18% yn nifer y bobl dros 65 oed – mae hynny'n cynrychioli miloedd o bobl a fydd yn dibynnu ar ein gwasanaethau gofal. Mae'r galw'n tyfu, ac mae cymhlethdod yr angen yn cynyddu. Dyma lle mae grym ymchwil yn hollbwysig wrth gynnig y gwasanaeth hwn."

## Cyflwyniadau cyflym

Rhoddodd ymchwilwyr gyfres o gyflwyniadau cyflym ar yr ymchwil sydd eisoes ar y gweill o dan gylch gorchwyl CARE. Mae'r prosiect "Technolegau Cynorthwyol Arloesol ar gyfer Dementia" a ariennir gan Rwydwaith Arloesedd Cymru, a gyflwynwyd gan Dr Sofia Vougioukalou, Cymrawd Ymchwil CARE, a Jazz Browne, Prif Weithredwr Canolfan Adnoddau Nubian Life, yn ymchwilio i anghenion pobl amrywiol â dementia a'u gofalwyr, gan gynnwys y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu wrth ddefnyddio technolegau cynorthwyol.

Cyflwynodd Dr Georgie Powell ymchwil ei chymrodoriaeth a ariennir gan Google ar Ddefnyddio Technolegau Cartref Clyfar mewn Gofal Cymdeithasol, sy'n canolbwyntio ar bobl ag anableddau dysgu sy'n byw mewn tai â chymorth, ac oedolion hŷn mewn tai cymdeithasol.

Mae'r prosiect ymchwil etifeddiaeth Engage to Change, a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd gan Dr Elisa Vigna, yn ymchwilio i effaith hirdymor y prosiect cenedlaethol hwn, a weithiodd gyda chyflogwyr a phobl ifanc ag anableddau neu anawsterau dysgu a'r rhai ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth i greu a chefnogi cyfleoedd gwaith ledled Cymru.

Siaradodd Dr Catherine Purcell am ei hymchwil ar adeiladu cymunedau sy'n fwy cynhwysol i oedolion niwrowahanol, gan gynnwys y rhai sydd ag Anhwylder Cydlynu Datblygiadol, Dyslecsia, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) ac Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASD). Mae ei gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar heneiddio â chymorth a theithio llesol.



Tîm craidd CARE gyda Grŵp Profiad Bywyd CARE yn y lansiad ar 17 Hydref 2024.



## Y Grŵp Profiad Bywyd

Cyflwynodd Alice Butler, Gweithiwr Cynnwys y Cyhoedd a Gweithwyr Proffesiynol, ein Grŵp Profiad Bywyd yn CARE – Damian Bridgeman, Chloe Cannon, Kirti Kotecha, Anne Rees, Dr Andy Woodhead, Richeldis Yhap a Mal O'Donnell, sy'n dod â chyfoeth o wybodaeth a phrofiad i'n gwaith ymchwil.

Fel y dywedodd Dr Andy Woodhead, sy'n byw gyda Dementia, "Dylai pobl â phrofiad bywyd gael eu trin yn gydradd mewn ymchwil". Mae hon yn egwyddor sylfaenol i bob un ohonom yn CARE.

## Sut gall ymchwil fynd i'r afael â heriau mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru

Yn olaf, gofynnodd ein panel – Cyfarwyddwr CARE, yr Athro Paul Willis, Taryn Stephens (Dirprwy Gyfarwyddwr Gwella, y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru), Rachel Bowen (Cyfarwyddwr Polisi, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn), Sarah McCarty (Prif Weithredwr, Gofal Cymdeithasol Cymru) a'r Athro Andy Pithouse o Brifysgol Caerdydd – "Beth yw'r heriau mwyaf ym maes gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru? A sut y gall gwaith ymchwil helpu i fynd i'r afael â'r rhain?"

Amlinellodd yr Athro Paul Wills y prif flaenoriaethau ar gyfer ymchwil gofal cymdeithasol i oedolion:

- Mwy o ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn gofal cymdeithasol
- Gwerthfawrogi'r unigolion sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol yn fwy
- Sut gallwn ni gofleidio Deallusrwydd Artiffisial mewn modd moesegol ym maes gofal cymdeithasol?

Rydyn ni'n ddiolchgar i bawb a fynychodd am helpu i wneud y digwyddiad yn gymaint o lwyddiant.



# Ymchwil

## Labordy Data Cysylltiol Gofal Cymdeithasol (Labordy CARE)

**Cyflwyniad**

Nod y Labordy Data Cysylltiol Gofal Cymdeithasol (Labordy CARE) yw meithrin dealltwriaeth o'r boblogaeth sy'n derbyn gofal a chymorth i helpu i gynllunio gwasanaethau a strategaethau i leihau anghydraddoldebau. Ar ben hynny, mae am ddangos gwerth data gweinyddol cysylltiol ar gyfer ymchwil gofal cymdeithasol i oedolion yn ogystal ag asesu cyfyngiadau. Mae cwestiynau'r ymchwil fel a ganlyn:

- **RQ1:** Pa fath o ofal a chymorth y mae oedolion yng Nghymru yn ei gael? Sut mae hyn yn amrywio yn ôl amhariad/cyflwr, nodweddion demograffig-gymdeithasol, cyfrifoldebau gofalu ac ALI?
- **RQ2:** Beth yw nodweddion yr oedolion yng Nghymru sy'n cael gofal a chymorth o gymharu â gweddill y boblogaeth? (rhyw ar adeg eu geni, hunaniaeth rhywedd, rhywioldeb, oedran, grŵp ethnig, crefydd, cyfansoddiad y cartref, dewis iaith, amddifadedd ar lefel ardal). Sut mae hyn yn amrywio yn ôl amhariad/cyflwr a'r math o ofal a chymorth?
- **RQ3:** I ba raddau y mae cymorth gofal cymdeithasol yn amrywio ar draws ardaloedd?
- **RQ4:** Beth yw nodweddion y plant sy'n symud i wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion o gymharu â'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny?
- **RQ5:** I ba raddau y gellir gwerthuso'r system gofal cymdeithasol drwy ddefnyddio data gofal gweinyddol cysylltiol ar lefel unigol?

| **Cysylltiad CARE** | |
|---|---|
| Dan arweiniad CARE | |
| **Arweinwyr Ymchwil** | |
|  Fiona Lugg-Widger (Canolfan Ymchwil Treialon) |  Jonathan Scourfield (CARE) |
| **Aelodau Ymchwil a chydweithrediadau** | |
| Ashley Akbari, Gwyddor Data Poblogaeth, Prifysgol Abertawe<br>Rebecca Cannings-John, Canolfan Ymchwil Treialon<br>Matthew Curds, Llywodraeth Cymru<br>Miranda Evans, Anabledd Cymru<br>Jose-Luis Fernandez, Ysgol Economeg a Gwyddorau Gwleidyddol Llundain<br>Melissa Meindl, CARE<br>Lisa Trigg, Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Nell Warner, CASCADE, Caerdydd<br>Paul Willis, CARE | |
| **Ariannwr/Arianwyr** | |
| Rhaglen Ymchwil NIHR ar gyfer Gofal Cymdeithasol | |
| **Swm** | |
| £1,441,577 | |
| **Dyddiad dechrau'r prosiect** | |
| Ebrill 2025 | |
| **Dyddiad gorffen y prosiect** | |
| Mawrth 2028 | |

## Cefndir

Ychydig iawn rydyn ni'n ei wybod am y gofal cymdeithasol a ddarperir i oedolion ar hyn o bryd ar lefel genedlaethol ac, yn benodol, yr anghydraddoldebau mynediad a diffygion cymorth. Mae hyn yng nghyd-destun trosiant staff uchel, mwy o alw, ac effaith cyni. Gall dod â gwybodaeth ynghyd ar draws sectorau feithrin dealltwriaeth drylwyr, fel y dangoswyd eisoes ar gyfer y sector gofal cymdeithasol plant ac yn y sector iechyd. Mae data sydd wedi'i safoni'n genedlaethol am oedolion sy'n cael gofal a chymorth ar gael ledled y DU erbyn hyn. Fodd bynnag, nid yw'r data hwn wedi'i gysylltu eto er gwaethaf dyheadau'r Llywodraeth i wneud hynny. Yng Nghymru, mae'r cyfle i gael mynediad diogel at ddata ar lefel poblogaeth, sydd wedi'i gysylltu ar lefel unigol ar draws sectorau, eisoes wedi'i wireddu, ar wahân i ddata am ofal cymdeithasol i oedolion. Bydd yr astudiaeth arfaethedig hon yn integreiddio cyfrifiad Oedolion sy'n Cael Gofal a Chymorth Cymru (ARCS), a sefydlwyd yn ddiweddar, gyda data arall gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Dros gyfnod o dair blynedd, ac ar draws pum pecyn gwaith, byddwn yn mynd i'r afael â'r nodau uchod.

## Dulliau astudio a gweithgareddau

Ym mlwyddyn 1 byddwn yn cael fersiwn annibynnol o ddata ARCS 2023-24 (n≈50,000). Bydd hyn yn galluogi sesiynau briffio cyflym ar y boblogaeth yn ôl nodweddion allweddol a math o angen. Bydd data cysylltiol o fewn amgylchedd ymchwil dibynadwy (Banc Data SAIL) ym mlynyddoedd 2 a 3 yn rhoi disgrifiad manylach o'r boblogaeth hon drwy gysylltu â data'r Cyfrifiad (Swyddfa Ystadegau Gwladol). Bydd hyn yn caniatáu i ni wneud cymariaethau â phoblogaeth ehangach Cymru, a dilyn teithiau unigolyn drwy iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig o ofal cymdeithasol plant. Bydd cyfweliadau ansoddol (n=60) yn cael eu cynnal ochr yn ochr â hyn i drafod y rhwystrau i gymorth a'r hyn sy'n galluogi mynediad gyda staff gofal cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Bydd y cyfweliadau hyn yn galluogi dealltwriaeth a dehongliad dyfnach o'r canfyddiadau meintiol sy'n dod i'r amlwg.

Byddwn hefyd yn asesu pa mor ymarferol yw gwerthuso modelau gofal drwy ddefnyddio data cysylltiol. Yn olaf, byddwn yn gwneud argymhellion ar gyfer casglu data yng Nghymru yn y dyfodol ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ledled y DU i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu adnoddau tebyg yn y tair gwlad arall.

## Gweithgareddau cynnwys y cyhoedd

Bydd Grŵp Profiad Bywyd Labordy CARE yn cael ei recriwtio i lywio'r holl becynnau gwaith. Ar gyfer yr ymchwil ansoddol, bydd pobl sydd â phrofiad o ofal a chymorth yn cymryd rhan mewn cyd-gyfweliadau.

# Ymchwil

## Diogelu Pobl â Phroblemau Iechyd Meddwl rhag Camdriniaeth ac Esgeulustod

**Cyflwyniad**

Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu gan Gyllid Gallu Ymchwil gan Bartneriaeth Iechyd Meddwl Avon a Wiltshire. Rhoddir y cyllid hwn i helpu ymchwilwyr i gynnal gwaith paratoadol ar gyfer cais i'r Athrofa Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd. Nododd ein cais y byddem yn cynnal adolygiad cwmpasu a fyddai'n cael ei ddefnyddio fel platfform i gais ar ddiogelu pobl â phroblemau iechyd meddwl ar gyfer galwad Rhaglen Ymchwil Gofal Cymdeithasol NIHR.

| Cysylltiad CARE |
| --- |
| Dan Arweiniad CARE |
| **Arweinwyr Ymchwil** |
|  Dr Jeremy Dixon - CARE |
| **Aelodau Ymchwil a chydweithrediadau** |
| Dr Melissa Meindl – CARE<br><br>Dr Megan Robb – Adran y Gwyddorau Cymdeithasol a Pholisi, Prifysgol Caerfaddon |
| **Ariannwr/Arianwyr** |
| Partneriaeth Iechyd Meddwl Avon a Wiltshire |
| **Swm** |
| £7,126 |
| **Dyddiad dechrau’r prosiect** |
| Ebrill 2024 |
| **Dyddiad gorffen y prosiect** |
| Mawrth 2025 |

### Cefndir

Mae ymchwil ryngwladol wedi dangos bod pobl sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl mewn mwy o berygl o gamdriniaeth ac esgeulustod na gweddill y boblogaeth. Gall camdriniaeth fod yn seicolegol, yn gorfforol, yn ariannol neu'n rhywiol. Gall unigolion hefyd hunan-esgeuluso. Yng Nghymru a Lloegr, gelwir y broses o atal neu ymateb i gam-drin oedolion yn 'ddiogelu'. Mae ymchwil wedi canfod na sylwir ar gamdriniaeth o'r fath yn aml ac y gall problemau iechyd meddwl effeithio ar allu person i nodi neu roi gwybod am gamdriniaeth.

Mae'r ymatebion cyfredol i ddiogelu oedolion wedi'u gyrru'n bennaf gan lunwyr polisi, gweithwyr proffesiynol a grwpiau pwyso, heb lawer o gyfraniad gan bobl yr effeithir arnynt gan broblemau iechyd meddwl neu eu cynrychiolwyr. Mae ymchwil flaenorol yn canolbwyntio ar amddiffyn oedolion â phroblemau iechyd meddwl wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddefnyddio Deddf Iechyd Meddwl 1983, sy'n caniatáu triniaeth orfodol ar gyfer problem iechyd meddwl yn yr ysbyty. O ganlyniad, mae angen archwilio sut mae pobl â phroblemau iechyd meddwl yn ystyried camdriniaeth ac esgeulustod, y camau maen nhw'n teimlo y dylid eu cymryd i wella eu diogelwch a'u lles, eu hymwybyddiaeth o'u hawliau a sut y gall gwasanaethau diogelu ymateb orau i'w hanghenion.

### Dulliau astudio a gweithgareddau

Mae'r prosiect hwn yn adolygiad cwmpasu ac mae'n cael ei ddefnyddio i lywio cais ymchwil. Bydd y llenyddiaeth yn cael ei chwilio i gynhyrchu crynodeb o'r hyn y mae astudiaethau cyfredol wedi canolbwyntio arno a bylchau yn y sylfaen dystiolaeth. Mae ein hadolygiad yn cael ei lywio gan set o gwestiynau a ddatblygwyd gyda mewnbwn pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, gofalwyr anffurfiol a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol ar ddechrau'r prosiect.

Yn dilyn ein cyfarfod cyntaf gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, gwnaethom chwilio'r llenyddiaeth academaidd, yn ogystal â dogfennau polisi neu ymchwil neu archwiliadau a gynhaliwyd gan sefydliadau y tu allan i'r byd academaidd. Gwnaethom chwilio chwe chronfa ddata a sgrinio 891 o deitlau, gan wrthod y rhai nad oeddent yn berthnasol. Ar ôl dadansoddi pellach, penderfynwyd ar 13 o allbynnau perthnasol a threfnwyd y canfyddiadau'n themâu. Yna cynhaliwyd ymgynghoriadau pellach gyda phobl sydd â phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i rannu canfyddiadau ein hadolygiad cwmpasu ac ymgynghori ar y cwestiynau a'r dulliau ymchwil y dylem eu hystyried ar gyfer cais ymchwil yn y dyfodol.

### Gweithgareddau cynnwys y cyhoedd

Cynhaliwyd cyfarfodydd ar-lein gyda phobl sydd â phrofiad o broblemau iechyd meddwl, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ar ddechrau a diwedd y prosiect i lywio ein cwestiynau ymchwil ar gyfer yr adolygiad cwmpasu a'n cwestiynau ymchwil ar gyfer y cais.

# Ymchwil

## Cydbwyso Ymreolaeth a Risg mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol

**Cyflwyniad**

Mae ymarferwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr yn wynebu heriau moesegol ac ymarferol sylweddol wrth gydbwyso ymreolaeth a risg. Mae'r gyfraith bresennol yn nodi bod gan bob unigolyn hawl i ymreolaeth, gyda Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn nodi na ddylid barnu bod unigolion yn brin o alluedd gan eu bod yn gwneud 'penderfyniadau annoeth'. Fodd bynnag, rhoddir dyletswyddau i Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr hefyd i amddiffyn 'oedolion mewn perygl' rhag camdriniaeth neu esgeulustod (proses a elwir yn 'ddiogelu oedolion'). Mae cyfraith achosion yn y maes hwn yn gymhleth, sy'n golygu bod ymarferwyr yn wynebu heriau ymarferol. Bydd y prosiect hwn yn archwilio'r mater trwy adolygiad llenyddiaeth a digwyddiad cymunedol gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol ac arweinwyr ym maes gofal cymdeithasol.

| Cysylltiad CARE |
|---|
| Dan Arweiniad CARE |
| **Arweinwyr Ymchwil** |
| <br>Dr Jeremy Dixon – CARE |
| **Aelodau Ymchwil a chydweithrediadau** |
| Dr Sally Hewlett - Adran Addysg, Prifysgol Caerfaddon<br><br>Dr David Frances Hunt - Adran Seicoleg, Prifysgol Caerwysg<br><br>Yr Athro Judy Laing - Ysgol y Gyfraith Prifysgol Bryste |
| **Ariannwr/Arianwyr** |
| GW4 |
| **Swm** |
| £4,976 |
| **Dyddiad dechrau'r prosiect** |
| Ionawr 2025 |
| **Dyddiad gorffen y prosiect** |
| Mehefin 2025 |

## Cefndir

Ystyrir Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn drobwynt deddfwriaethol yng Nghymru a Lloegr ac mae'n rheoleiddio penderfyniadau personol i oedolion ynghylch eu hiechyd, lles, eiddo a materion. Mae'r Ddeddf yn bwysig i oedolion gan ei bod yn amddiffyn eu hawliau i wneud penderfyniadau ymreolaethol, tra'n nodi hefyd yr amddiffyniadau y dylen nhw eu cael os nad oes ganddyn nhw'r galluedd meddyliol i wneud hynny.

Er bod yr hawl unigol i ymreolaeth wedi'i diogelu drwy Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, rhoddir dyletswyddau i Awdurdodau Lleol hefyd i amddiffyn pobl rhag niwed yng Nghymru a Lloegr (proses a elwir yn 'ddiogelu oedolion'). Rhoddir y dyletswyddau hyn o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yng Nghymru a Deddf Gofal 2014 yn Lloegr, sy'n nodi sut y dylai awdurdodau lleol weithio gydag oedolion ag anghenion gofal a chymorth sy'n profi - neu sydd mewn perygl o brofi - camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae adolygiadau achosion difrifol, sydd bellach yn cael eu galw'n adolygiadau diogelu oedolion, wedi nodi diffyg consensws ynghylch sut y dylai gwasanaethau barchu ymreolaeth yn gyfunol yn erbyn dyletswydd i amddiffyn unigolion os nad ydyn nhw'n gallu gofalu amdanyn nhw eu hunain.

Nod ein tîm amlddisgyblaethol yw creu sylfaen ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Byddwn yn adolygu llenyddiaeth bresennol ac yn dod â chymuned o ymarferwyr ynghyd sy'n cynnwys ymchwilwyr, rhanddeiliaid, ac unigolion sydd â phrofiadau bywyd. Bydd hyn yn helpu i strwythuro ein dull gweithredu, yn cynnig gwybodaeth werthfawr, ac yn sail i gais ymchwil yn y dyfodol.

## Dulliau astudio a gweithgareddau

Rydyn ni'n cynnal adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth. Bydd y tîm ymchwil yn cynnal digwyddiad ar 28 Mai 2025 yn Hamilton House ym Mryste. Bydd pobl sydd â phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol ac arweinwyr yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn bresennol.

Pwrpas y digwyddiad yw rhannu'r canlyniadau a gasglwyd gennym o adolygiad llenyddiaeth ar sut mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn parchu dymuniadau'r bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw, tra hefyd yn eu hamddiffyn rhag niwed. Byddwn ni'n gofyn i bawb sy'n bresennol i ba raddau y mae'r dystiolaeth ymchwil yn adlewyrchu eu profiadau eu hunain, sut y gellid gwella'r maes ymarfer hwn a pha ymchwil a allai fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol.

## Gweithgareddau cynnwys y cyhoedd

Bydd y digwyddiad ar 28 Mai 2025 yn cynnwys pobl sydd â phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol ac arweinwyr yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion.

# Ymchwil

## SAFE@HOME: Diogelwch ac Ymreolaeth i Bawb yn y Cartref

**Deall diogelwch, risgiau a'r cydbwysedd niwed a budd sy'n deillio o ofal cartref**

### Cyflwyniad

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddeall y risgiau a'r niwed a brofir gan bobl sy'n derbyn neu'n darparu gofal cartref, ac mae'n cael ei arwain gan y Prif Ymchwilydd, yr Athro Andrew Carson-Stevens. Mae tîm yr astudiaeth yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd sydd â phrofiad o ofal cartref, a chydweithwyr sydd â phrofiad o ofal cymdeithasol, y gyfraith a gofal iechyd o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Choleg Prifysgol Llundain.

### Cefndir

Mae cymdeithas sy'n heneiddio, gyda mwy o gyflyrau iechyd hirdymor, yn golygu bod angen gofal ar fwy o bobl. Mae pwysau ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymdeithasol wedi arwain at fwy o ofal yn cael ei ddarparu yng nghartrefi pobl (gofal cartref). Mae'r cartref yn rhywle nad yw'n cael ei reoleiddio na'i reoli, lle gall pobl sy'n gallu deall manteision ac anfanteision gofal cartref a rhannu eu dymuniadau (a elwir yn alluedd) arfer eu hawl i gymryd risgiau. Gall hyn effeithio ar eu diogelwch, ond hefyd ar rôl gofalwyr di-dâl (fel aelodau o'r teulu, er enghraifft), sy'n aml yn darparu gofal heb hyfforddiant ffurfiol, yn ogystal â gweithwyr gofal cartref cyflogedig.

**Cysylltiad CARE**

Mae CARE ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi cefnogi'r prosiect hwn o ran recriwtio a chefnogaeth i'n tri chyd-ymgeisydd cyhoeddus, a recriwtio i'n grŵp cynghori cleifion/aelodau cyhoeddus ar gyfer pwyllgor llywio'r astudiaeth.

**Arweinwyr Ymchwil**



Yr Athro Andrew Carson-Stevens, Athro Diogelwch Cleifion, Prifysgol Caerdydd

**Aelodau Ymchwil a chydweithrediadau**

Dr Joy McFadzean, Darlithydd Clinigol Diogelwch Cleifion, Prifysgol Caerdydd

Yr Athro Paul Willis, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd

Dr Alison Tarrant, Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd

Dr Matthew Smith, Yr Ysgol Fferylliaeth a'r Gwyddorau Fferyllol, Prifysgol Caerdydd

Miss Delyth Price, Yr Ysgol Meddygaeth, Prifysgol Caerdydd

Dr Aled Davies, Yr Ysgol Meddygaeth, Prifysgol Caerdydd

Dr Deborah Morgan, Prifysgol Abertawe

Dr Maria Cheshire-Allen, Prifysgol Abertawe

Dr Sarah Yardley, Coleg Prifysgol Llundain

Mr Rashmi Kumar, cyd-ymgeisydd cyhoeddus

Ms Marie-Claire Hunter, cyd-ymgeisydd cyhoeddus

Ms Sian Harding, cyd-ymgeisydd cyhoeddus

**Ariannwr/Arianwyr**

NIHR HS&DR 23/90 Gwerthuso trefniadaeth, darpariaeth ac ansawdd gwasanaethau gofal cartref

**Swm**

£798,823

**Dyddiad dechrau'r prosiect**

Mawrth 2025

**Dyddiad gorffen y prosiect**

Chwefror 2027

Mae gweithgareddau a gyflawnir gan ofalwyr cyflogedig, sy'n gweithio ar eu pen eu hunain i raddau helaeth heb ddigon o gefnogaeth, yn dod yn fwy cymhleth. Mae llawer o bobl sy'n derbyn gofal cartref (sef defnyddwyr gwasanaeth), teuluoedd a gweithwyr gofal yn poeni am ddiogelwch, risgiau, a manteision a niwed gofal cartref.

Er bod gwybodaeth am ddiogelwch, risgiau a niwed yn cael ei chasglu, nid oes ffordd effeithiol o adolygu a deall yr hyn a adroddir fel mater o drefn, i nodi ble a sut i wneud gwelliannau i ofal. Hefyd, nid oes cytundeb ar ystyr 'diogel' na sut y dylid delio â blaenoriaethau sy'n gwrthdaro. Heb hyn, mae'n anodd gwybod pryd mae gofal yn anniogel a sut y gellir osgoi hyn, ac nid yw'r rhai sy’n gyfrifol yn gwybod beth yw'r problemau mwyaf cyffredin neu ddifrifol. Mae deall y problemau hyn yn bwysig er mwyn gwella gofal yn y cartref.

Dylai pobl gael gofal diogel ar gyfer pob agwedd ar eu hanghenion gofal. Byddwn ni’n helpu dylunwyr gofal, arianwyr, llunwyr polisi a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i ddeall beth all fynd o'i le, i bwy, pryd a sut, er mwyn lleihau risgiau yn y dyfodol.

**Dulliau astudio a gweithgareddau**

Nod yr astudiaeth hon yw deall y risgiau a'r niwed a brofir gan bobl sy'n darparu ac yn derbyn gofal yn y cartref a sut y gellir eu lleihau.

Byddwn ni’n:

1. Edrych ar y llenyddiaeth sydd ar gael i ddeall sut mae diogelwch yn cael ei ddeall mewn gofal cartref.
2. Adolygu adroddiadau diogelwch a ysgrifennir gan weithwyr gofal cartref yng Nghymru i ddeall y problemau y rhoddir gwybod amdanynt amlaf a pham maen nhw wedi digwydd.
3. Siarad â defnyddwyr gofal a'u teuluoedd/ffrindiau/pobl eraill sy'n cefnogi eu gofal o bob cwr o Gymru, er mwyn deall eu pryderon diogelwch.
4. Siarad â phobl sy'n gyfrifol am ofal cartref (e.e. rheolwyr, llunwyr polisi, gofalwyr, arolygwyr ym mhob un o bedair gwlad y DU) i ddeall sut mae niwed yn digwydd/cael ei atal, a sut maen nhw'n cydbwyso'r risg o niwed gyda’r manteision posibl i ddarparu gofal sy'n diwallu anghenion defnyddwyr.

**Gweithgareddau cynnwys y cyhoedd**

Gwnaeth tri gofalwr sydd ag aelodau o'r teulu y mae angen gofal cartref arnynt ein helpu i gynllunio'r astudiaeth. Fel cyd-ymgeiswyr, maent yn rhan o dîm yr astudiaeth a byddant yn mynychu ein cyfarfodydd astudio ac yn ein harwain ar benderfyniadau allweddol megis recriwtio cyfranogwyr o gymunedau amrywiol, y cwestiynau rydyn ni’n eu gofyn, a sut rydyn ni’n rhannu canlyniadau'r astudiaeth gyda gwahanol grwpiau (yn enwedig o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol).

Cyfrannodd defnyddwyr gwasanaeth ychwanegol, gofalwyr di-dâl a chyflogedig, a chynrychiolwyr proffesiynol o bob cwr o Gymru at gynllunio ein hastudiaeth. Dywedon nhw wrthym nad oes angen 'mwy o reolau' ar weithwyr gofal cartref, a’u bod nhw’n ei chael hi'n anodd eu cymhwyso. Yn hytrach, maen nhw'n chwilio am egwyddorion a'r gallu i wneud penderfyniadau y mae eu cyflogwyr (a sianeli swyddogol fel rheoleiddwyr ac arolygwyr) yn eu cefnogi fel y gallant ddefnyddio'r rhain yn y byd go iawn i ddarparu gofal sy'n gwneud gwahaniaeth i'r bobl maen nhw'n gofalu amdanynt. Mae llawer o uwch-benderfynwyr o Gymru a'r gwledydd datganoledig wedi cytuno i fynychu ein digwyddiadau lledaenu gwybodaeth i randdeiliaid neu ein grŵp llywio annibynnol, ac rydyn ni’n anelu at rannu ein canfyddiadau'n eang.

## Ymchwil

# Astudiaeth LEAP – Darpariaeth LHDTC+ Gynhwysol yn y Cartref i bobl hŷn

### Cyflwyniad

Gan ddechrau ym mis Mehefin 2025, mae'r prosiect 27 mis hwn yn anelu at wella dealltwriaeth o barodrwydd pobl sy'n gweithio mewn gofal cartref i gefnogi pobl hŷn (60 oed+) LHDTC+. Mae'r astudiaeth hon yn gydweithrediad newydd rhwng Prifysgol Caint (y sefydliad cynnal) a CARE a bydd yn cynnwys gweithwyr gofal cartref a phobl hŷn o Gymru a Lloegr. Mae prifysgolion eraill sy'n cymryd rhan yn cynnwys Prifysgol Birmingham a Phrifysgol South Bank Llundain.

Ystyr parodrwydd yw bod gan weithwyr gofal cartref y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder priodol i gefnogi'r boblogaeth LHDTC+. Ystyr LHDTC+ yw lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws, cwîar, a grwpiau rhywioldeb a rhywedd lleiafrifol eraill.

Mae o leiaf 1 miliwn o bobl hŷn LHDTC+ yng Nghymru a Lloegr, felly mae'r mater hwn yn effeithio ar lawer o bobl. Mae astudiaethau cynharach yn dangos nad oes gan weithwyr gofal ddigon o sgiliau, gwybodaeth a hyder i gefnogi pobl hŷn LHDTC+. Roedd yr astudiaethau hyn yn canolbwyntio ar gartrefi gofal a thai gofal ychwanegol, ond nid oes unrhyw astudiaethau wedi edrych ar ofal cartref yn benodol.

**Cysylltiad CARE**

Mae'r prosiect hwn yn gydweithrediad newydd rhwng y Ganolfan Astudiaethau Gwasanaeth Iechyd ym Mhrifysgol Caint a CARE. Cyd-arweiniwyd y cais gan Gyfarwyddwr CARE, Paul Willis.

**Arweinwyr Ymchwil**



Dr Jolie Keemink, Canolfan Astudiaethau Gwasanaeth Iechyd, Prifysgol Caint (arweinydd)



Yr Athro Paul Willis, CARE (cyd-arweinydd)

**Aelodau Ymchwil a chydweithrediadau**

Mae'r sefydliadau sy'n cydweithio'n cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, Sgiliau Gofal a Chymdeithas Gofal Cartref y DU ynghyd â chyd-ymchwilwyr o Brifysgol Birmingham a Phrifysgol South Bank Llundain.

**Ariannwr/Arianwyr**

Rhaglen Ymchwil Gofal Cymdeithasol NIHR

**Swm**

£507,169

**Dyddiad dechrau'r prosiect**

Mehefin 2025

**Dyddiad gorffen y prosiect**

Awst 2027

## Cefndir

Gwyddom o astudiaethau diweddar fod gan lawer o oedolion LHDTC+ lawer o bryderon ynghylch derbyn cymorth gofal cymdeithasol yn ddiweddarach mewn bywyd – pryderon yn ymwneud â thriniaeth elyniaethus, wahaniaethol gan weithwyr gofal, eu hanghenion gofal a'u hunaniaethau'n cael eu hanwybyddu a'u perthnasoedd yn cael eu diystyru, neu beidio â derbyn gofal o ansawdd da sy'n gwbl gynhwysol.

Mewn perthynas â darpariaeth gofal cartref, mae rhai pobl LHDTC+ yn nodi pryderon am orfod 'dad-hoywi' eu cartref eu hunain ac amddiffyn eu hunain rhag triniaeth homoffobig neu drawsffobig ddisgwyliedig. Fodd bynnag, dydyn ni ddim yn gwybod llawer am brofiadau pobl LHDTC+ sy'n derbyn cymorth gofal cartref yn uniongyrchol yn eu cartrefi eu hunain.

Y polisi cyfredol yw cefnogi pobl hŷn i barhau i fyw yn eu cartrefi ger y cymunedau sy'n bwysig iddyn nhw cyhyd â phosibl. Mae'n bwysig deall pa mor barod yw gweithwyr gofal cartref i gefnogi'r boblogaeth hon, fel y gallwn wneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. Bydd hyn yn helpu gweithwyr gofal cartref i gynnig gofal cynhwysol a phersonoledig ac i gyflogwyr yn y sector sicrhau bod gweithwyr yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth dda ar ofal cynhwysol.

## Dulliau astudio a gweithgareddau

Bydd ein cynllun ymchwil yn cynnwys adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth bresennol ar gyfer unrhyw wybodaeth am barodrwydd pobl sy'n gweithio mewn gofal cartref, holiadur ar-lein i weithwyr a darparwyr gofal cartref am eu gwybodaeth LHDTC+ a'u sgiliau cyfredol, a chyfweliadau â gweithwyr gofal cartref a phobl hŷn LHDTC+ sy'n derbyn cymorth gofal cartref ar hyn o bryd. Byddwn hefyd yn cynnig yr opsiwn i bobl hŷn anfon llythyrau atom am eu profiadau o ofal cartref.

## Gweithgareddau cynnwys y cyhoedd

Cafodd y cais ei lywio gan safbwyntiau pobl sy'n gweithio mewn gofal cartref ac yn rheoli gwasanaethau gofal cartref a phobl hŷn LHDTC+. Byddwn yn sefydlu grŵp o bobl hŷn LHDTC+ a fydd yn ein cynghori drwy gydol yr astudiaeth ar bob agwedd. Byddant hefyd yn ein helpu gyda'r cyfweliadau â phobl LHDTC+ ac yn gweithredu fel cyd-ymchwilwyr.



# Ymchwil

## Cyd-gynhyrchu prosiect Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion: Heriau ac Atebion

**Cyflwyniad**

Mae cyd-gynhyrchu yn ceisio democrateiddio ymchwil a meithrin partneriaethau tecach rhwng ymchwilwyr, ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Er y canllawiau presennol ar gyd-gynhyrchu, mae gweithredu cyd-gynhyrchu ystyrlon, gwirioneddol mewn ymchwil yn dal i fod yn llawn heriau. Ar hyn o bryd, mae diffyg llenyddiaeth ar yr heriau sy'n gysylltiedig â chyd-gynhyrchu ymchwil gofal cymdeithasol i oedolion ac atebion ymarferol ar sut y gallwn oresgyn y rhain.

Ceisiodd yr astudiaeth ragarweiniol hon fynd i'r afael â'r bwlch hwn drwy ddysgu gwersi gan oedolion sydd â phrofiad o ofal cymdeithasol i oedolion. Yn benodol, y nod oedd nodi heriau cyd-gynhyrchu mewn ymchwil gofal cymdeithasol i oedolion, a chynnig atebion i'r heriau hyn ar y cyd, gan alluogi arferion cyd-gynhyrchu mwy ystyrlon a chynhwysol.

**Cysylltiad CARE**

Dan Arweiniad CARE

**Arweinwyr Ymchwil**



Melissa Meindl, cydymaith ymchwil CARE – arweinydd ymchwil



Alice Butler, Gweithiwr Cynnwys y Cyhoedd a Gweithwyr Proffesiynol – arweinydd cynnwys y cyhoedd

**Aelodau Ymchwil a chydweithrediadau**

Roedd tîm y prosiect yn cynnwys cymorth gweinyddol gan Weinyddwr Canolfan CARE, Amy Chapple

**Ariannwr/Arianwyr**

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (fel rhan o gyllid seilwaith CARE)

**Swm**

Costau wedi'u cynnwys yng nghyllid seilwaith CARE – gweithgareddau Cynnwys y Cyhoedd

**Dyddiad dechrau'r prosiect**

Hydref 2024

**Dyddiad gorffen y prosiect**

I'w gwblhau 2025

**Dulliau astudio a gweithgareddau**

Cynhaliom ddau weithdy gyda dau grŵp o gyfranogwyr (pedwar gweithdy i gyd). Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys 16 o oedolion â phrofiad o wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion - roedd 50% yn ddefnyddwyr gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion, 25% yn gofalu am neu'n cefnogi defnyddwyr gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion, a 25% yn ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn ofalwyr. Recriwtiwyd yr holl gyfranogwyr gan Alice drwy hysbysebion a chysylltiadau sefydledig â'n bwrdd cynnwys y cyhoedd a'i rwydwaith.

Roedd cynnwys pob gweithdy yr un fath ar gyfer y ddau grŵp o gyfranogwyr.

Roedd Gweithdy 1 yn canolbwyntio ar:

- Yr heriau i gyd-gynhyrchu ymchwil gofal cymdeithasol i oedolion ym marn y cyfranogwyr
- Beth yw ymchwil wedi’i chyd-gynhyrchu ym marn y cyfranogwyr, a beth ddylai ei gynnwys
- Egwyddorion allweddol ymchwil wedi’i chyd-gynhyrchu
- Diffiniad NIHR o gyd-gynhyrchu ac a ddylid ei newid i fod yn fwy addas ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion

Roedd Gweithdy 2 yn canolbwyntio ar:

- Fynd trwy bob thema her a gofyn i gyfranogwyr nodi atebion
- Cyflwyno diffiniad wedi'i ddiweddaru o gyd-gynhyrchu mewn ymchwil gofal cymdeithasol i oedolion i gyfranogwyr yn seiliedig ar eu hadborth o weithdy 1
- Gofyn i gyfranogwyr sut y dylem rannu'r ymchwil hon

Cymerom nodiadau ansoddol ym mhob gweithdy a'u dadansoddi gan ddefnyddio dadansoddiad clystyru thematig anwythol.

**Canfyddiadau**

Mae ein prif ganfyddiadau yn cynnwys:

1. Beth yw ymchwil wedi’i chyd-gynhyrchu ym marn oedolion sydd â phrofiad o wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, a beth ddylai ei gynnwys
2. Diffiniad wedi’i gyd-gynhyrchu o gyd-gynhyrchu mewn ymchwil gofal cymdeithasol i oedolion
3. Heriau allweddol cyd-gynhyrchu ymchwil gofal cymdeithasol i oedolion
4. Datrysiadau a awgrymir i fynd i'r afael â heriau allweddol cyd-gynhyrchu ymchwil gofal cymdeithasol i oedolion

Mewn perthynas â 3 a 4, gwnaethom nodi 8 prif thema ar yr heriau (a'r atebion cysylltiedig) o gyd-gynhyrchu ymchwil gofal cymdeithasol i oedolion: Anghydbwysedd pŵer; Adeiladu a chynnal perthnasoedd; Mynediad at ystod amrywiol o bobl; Cyfathrebu; Moeseg; Cynhwysiant; Deall/gweithredu cyd-gynhyrchu; Cyfyngiadau amser, cyllid ac adnoddau.

Mae ein prosiect yn cyfrannu at sylfaen dystiolaeth gynyddol ar gyd-gynhyrchu ac ymrwymiad i wneud penderfyniadau ar y cyd mewn ymchwil. Gwnaethom ganfod bod cyd-gynhyrchu ymchwil gofal cymdeithasol i oedolion, fel ymchwil mewn meysydd eraill, yn gofyn am ailystyriaeth sylfaenol o arferion ymchwil traddodiadol a strwythurau pŵer a fydd yn gofyn am fwy o amser gan ymchwilwyr a mwy o arian gan gyllidwyr.

# Cynnwys y Cyhoedd

**Cynnwys y Cyhoedd a Gweithwyr Proffesiynol yn CARE**

**Ebrill 2024 – Mawrth 2025**

Mae canolfan ymchwil CARE wedi parhau i roi cynnwys y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol wrth wraidd ei gwaith trwy ddatblygu dau grŵp cynghori allweddol: y Grŵp Profiad Bywyd a'r Fforwm Cynghori ar Ymarfer.

Mae'r Grŵp Profiad Bywyd, neu Fwrdd Cynnwys y Cyhoedd CARE gynt, wedi tyfu i fod yn rhan hanfodol o dîm a strwythur CARE. Ail-frandiodd y grŵp yn 2024 fel Grŵp Profiad Bywyd CARE, enw a ddewiswyd gan ei aelodau, gan adlewyrchu eu rôl a'u pwrpas. Cyfarfu'r grŵp wyneb yn wyneb deirgwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ddarparu cefnogaeth strategol a chynghorol, tra hefyd yn cymryd rhan yng ngweithgareddau a digwyddiadau ychwanegol ehangach CARE. Mae pob aelod yn cyfrannu gwybodaeth unigryw sy'n deillio o'i brofiad o ofal cymdeithasol i oedolion, gan gyfoethogi ymchwil ac ymgysylltiad cymunedol y ganolfan.





Un o uchafbwyntiau allweddol y flwyddyn ddiwethaf oedd Digwyddiad Lansio CARE, lle rhoddodd aelodau'r Grŵp Profiad Bywyd gyflwyniadau emosiynol ar eu profiadau bywyd, eu cymhellion dros ymuno â'r grŵp, a'u dyheadau ar gyfer cydweithio â CARE.

Yn ogystal, cymerodd aelodau'r grŵp ran mewn gweithdy adeiladu consensws cenedlaethol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar osod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil data cysylltiol mewn gofal cymdeithasol i oedolion. Helpodd eu cyfraniadau i lunio rhestr o'r 10 blaenoriaeth ymchwil uchaf i Gymru, gan weithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol, academyddion, a phobl eraill sydd â phrofiad bywyd. Mae dau aelod o'r Grŵp Profiad Bywyd hefyd wedi ymuno â cheisiadau ymchwil CARE fel cyd-ymgeiswyr, gan ddyfnhau cyfraniad profiad bywyd at y broses ymchwil.

I ategu safbwyntiau'r Grŵp Profiad Bywyd, sefydlodd CARE y Fforwm Cynghori ar Ymarfer a chynhaliwyd eu cyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2025. Mae'r Fforwm Cynghori ar Ymarfer yn grŵp newydd o tua 15 o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol i oedolion ledled Cymru. Wedi'i gydlynu gan Swyddog Cynnwys y Cyhoedd a Gweithwyr Proffesiynol CARE a'i gadeirio gan Dr Dan Burrows, darlithydd ac ymchwilydd gwaith cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd, mae'r fforwm yn cynnig cyngor a gwybodaeth hanfodol i CARE o safbwynt y gweithlu ac ymarferwyr.

Mae aelodau'r Fforwm Cynghori ar Ymarfer yn cynrychioli croestoriad eang ac amrywiol o'r dirwedd gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau statudol, sefydliadau trydydd sector, grwpiau eiriolaeth, a darparwyr arbenigol. Mae'r sefydliadau a gynrychiolir yn cynnwys:

- Ategi
- BASW Cymru
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)
- Tîm Anableddau Dysgu Oedolion Caerdydd
- Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Cyngor Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr
- Gwasanaethau Rheoli Achosion Cymunedol
- Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (Caerdydd a De-ddwyrain Cymru)
- Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Cyngor Conwy
- Dewis Cymru
- Grŵp Cymorth Lwpws y DU
- Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Sir Benfro
- Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Rhondda Cynon Taf
- Tîm Alcohol a Chyffuriau y Fro
- Tîm Iechyd Meddwl Ardal y Fro
- Women Seeking Sanctuary Group Wales






Ochr yn ochr â gweithgarwch y grŵp cynghori, mae CARE wedi integreiddio cyfranogiad y cyhoedd i mewn i nifer o geisiadau ymchwil dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae meysydd pwnc a gefnogir gan fewnbwn cyhoeddus a phroffesiynol yn cynnwys: asesiadau anghenion gofalwyr, cadw staff mewn gofal cymdeithasol, atal hunanladdiad a hunan-niweidio, dementia a'r Ddeddf Iechyd Meddwl, technolegau cynorthwyol, diogelu, a datgarboneiddio mewn gofal cartref.

# Casgliad

Mae'r flwyddyn nesaf yn cynnwys nifer o flaenoriaethau allweddol i CARE. Wrth i'n portffolio o brosiectau ymchwil 'byw' ehangu, byddwn yn canolbwyntio ar wneud cais i raglenni ariannu mwy a galwadau gofal cymdeithasol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r sector. Un enghraifft o'r fath yw'r rhaglen NIHR a lansiwyd yn ddiweddar ar Ddatgarboneiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Un o'r datblygiadau cyffrous ar gyfer y flwyddyn nesaf yw sefydlu tair canolfan ymchwil newydd a fydd yn cael eu cefnogi gan CARE. Y rhain yw'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Gofal Golwg (a gynhelir gan Brifysgol Caerdydd), y Ganolfan Dysgu Gofal Cymdeithasol a Deallusrwydd Artiffisial (SCALE) (a gynhelir gan Gaerdydd), a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed (a gynhelir gan Brifysgol Abertawe mewn cydweithrediad â CARE). Wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r canolfannau newydd hyn yn canolbwyntio ar feysydd penodol ond ategol sy'n gorgyffwrdd â'n ffocws ar ofal cymdeithasol i oedolion a byddant yn sianeli pwysig ar gyfer datblygu ymchwil ryngddisgyblaethol mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol ar draws y sectorau gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd cydweithwyr CARE yn ymuno â thimau ymchwil mewn amrywiaeth o geisiadau ar draws meysydd thematig y canolfannau newydd hyn.

Rydyn ni'n bwriadu tyfu fel tîm craidd gyda swydd cydymaith ymchwil newydd i gyfrannu at weithgarwch ysgrifennu ceisiadau a swydd cymorth proffesiynol newydd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ceisiadau a seilwaith ehangach CARE. Megis dechrau mae ein grŵp cynghori ar ymarfer ac rydyn ni'n bwriadu canolbwyntio ar gefnogi mwy o aelodau i ymuno â thimau ymchwil a chyfrannu mwy at geisiadau cyllid yn y dyfodol. Un flaenoriaeth barhaus yw sefydlu cydweithrediadau ag academyddion a sefydliadau gofal cymdeithasol ar draws gwledydd eraill y DU ac yn rhyngwladol i gryfhau ymhellach ein portffolio o brosiectau a'n potensial i gynhyrchu ymchwil effeithiol sy'n gwneud gwahaniaeth yn y byd go iawn.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn parhau i ledaenu'r dystiolaeth ymchwil ddiweddaraf i ymarferwyr a phobl sydd â phrofiad bywyd. Byddwn ni'n cynnal digwyddiad seminar wyneb yn wyneb blynyddol CARE yn ogystal â chefnogi ein partneriaid ExChange i drefnu ail gynhadledd ar-lein yn canolbwyntio ar bwnc sy'n taro tant gyda'r rhai sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol i oedolion ac sy'n cael mynediad at gymorth drwy'r maes hwn.

Mae blwyddyn lawn arall o'n blaenau - amdani!

**Paul Willis**

